

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
a
Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024
ar gyfer
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust

Ashmole & Co
Chartered Certified Accountants and Statutory Auditors
Manchester House
Rhiw Grosvenor
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HY

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Cynnwys y Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

| | Tudalen |
|---|----------------|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1 i 8 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 9 i 11 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 12 |
| Mantolen | 13 i 15 |
| Datganiad Llif Arian | 16 |
| Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian | 17 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 18 i 29 |
| Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol | 30 i 31 |

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan Building Preservation Trust

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Amcanion a nodau

Dibenion ein helusen fel y'u nodir ym memorandwm cymdeithasu'r cwmni yw:-

Diogelu er budd pobl Tref Aberteifi a'r Genedl, y dreftadaeth hanesyddol, bensaernïol ac adeiladol a allai fodoli yn Nhref Aberteifi a'r cyffiniau mewn adeiladau u (gan gynnwys unrhyw adeiladau fel y'u diffinnir yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) o ddiddordeb hanesyddol neu adeiladol neu harddwch arbennig.

Gweithgareddau arwyddocaol

Ffocws gwaith yr ymddiriedolaeth yw adfer a diogelu Castell Aberteifi er budd pobl Tref Aberteifi a'r Genedl. Mae Castell Aberteifi yn Heneb Gofrestredig o bwysigrwydd aruthrol yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru sef safle'r hyn a ystyriwyd yr Eisteddfod gyntaf ym 1176. Trwy ei 900 mlynedd o hanes, mae'r safle wedi mabwysiadu nifer o wahanol rolau ac mae ei esblygiad yn parhau hyd heddiw.

Adferwyd Castell Aberteifi i safon ragorol yn sgil brwdfrydedd ac ymrwymiad y gymuned leol a chefnogaeth aruthrol gan arianwyr allanol. Cydnabuwyd ansawdd y gwaith hwn pan enillodd y castell wobwr Restoration of the Year Channel 4 gan drechu 27 o gystadleuwyr cryf eraill, a hefyd gan ddisgrifiad Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon Llywodraeth Cymru o Gastell Aberteifi fel enghraifft ddisglair o gastell byw sydd â swyddogaethau sy'n berthnasol i'r gymdeithas fodern.

Mae'r ymddiriedolwyr a'r staff bellach yn gweithio i sicrhau y gall Castell Aberteifi fod yn gwbl gynaliadwy, gan gynhyrchu digon o refeniw i ddarparu profiad treftadaeth ac addysgol cryf gan gynnal ffabrig yr ased treftadaeth ar yr un pryd.

Mae Castell Aberteifi yn denu ymwelwyr o ardal ddaearyddol eang ac, yn ogystal â hysbysu'r ymwelwyr hyn am hanes a threftadaeth yr ardal, mae'r mewnlifiad hwn wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fusnesau Aberteifi a'r economi leol. Gall ymwelwyr aros o fewn muriau'r safle hanesyddol hwn i ddathlu, i ddysgu, i wneud busnes ac i giniawa. Ar yr un pryd mae nifer fawr o drigolion a phlant ysgol lleol yn manteisio ar ddigwyddiadau diwylliannol, addysgol, hamdden ac adloniant y safle. Mae'r ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd o fewn y waliau yn amlygu stori ryfeddol y castell yn ehangach byth.

Budd y cyhoedd

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adolygu effaith yr Elusen ar bobl Ceredigion gan ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn credu bod cynnal a chadw'r heneb hanesyddol hon, yn ogystal ag addysgu'r cyhoedd, er budd y cyhoedd.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Gweithgareddau elusennol

Addysg

Mae gan Gastell Aberteifi ddyletswydd i hyrwyddo dysgu ac yn benodol hanes y Castell, hanes y bobl sydd wedi byw yna, a hanes cyfoethog y dref ei hun. Mae cyfres o adnoddau addysgol wedi eu datblygu a'u paratoi ar gyfer cyfnodau allweddol 1,2 a 3, i'w defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth neu yn y Castell ei hun.

Treftadaeth

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn o newid gyda dyfodiad Cyfarwyddwr newydd i'r Castell. Bu cyfnod byr rhwng ymadawiad y Cyfarwyddwr blaenorol a dyfodiad y Cyfarwyddwr newydd ac mi wnaeth staff profiadol y Castell gadw'r llong ar ei chwrs yn llwyddiannus wrth bontio'r wythnosau.

Wrth i ni symud at ddeng-mlwyddiant agor y Castell i'r cyhoedd mae proses barhaus ar waith o adnewyddu ac ail-fywiogi'r safle, yr atynfeydd a'r arddangosfeydd yn Nhŷ Castle Green.

Gwelwyd peth lleihad yn niferoedd ymwelwyr yn 2023/24, ac fe rhagdybir taw'r wasgfa ariannol yn sgîl costau byw cynyddol sydd wrth wraidd hynny. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer atynfeydd newydd, ac mae'r wefan yn cael eu diweddarau yn dilyn cais llwyddiannus am grant 'Cynnal y Cardi' wrth gronfa'r SPF. Mae tair gwefan newydd wrthi yn cael eu hadeiladu, gan gynnwys un ar gyfer Ymddiriedolaeth Cadwgan, ac un ar gyfer 'Casgliad y Castell'. Bydd y ddwy is-safle'n eistedd tu fewn i wefan newydd Castell Aberteifi. Bydd y wefan honno yn haws i'w defnyddio ac yn fwy hygyrch ar ffôn symudol. Bydd y prif safle yn cynnwys injan optimeiddio chwilio, system rheoli cysylltu â chwsmeriaid, a phatfform e-fasnach ar gyfer siop ar-lein bydd hefyd yn gwerthu tocynnau.

Bydd gwefan 'Cadwgan' yn cynnwys defnyddiau perthnasol i waith yr Ymddiriedolaeth, er enghraifft erthyglau'r gymdeithas. Dyma fydd cartre' naturiol dogfen cenhadaeth a mwy o wybodaeth am yr Ymddiriedolwyr. Dyma lle bydd modd canfod cyfrifon, cofnodion ac adroddiadau'r Ymddiriedolaeth. Bydd y wefan yn ogystal yn dangos unrhyw newyddion o ddatblygiadau strategol.

Bydd 'Casgliad y Castell' dros amser yn cael eu boblogi gan hanes cyfoethog yr holl ddelweddau, lluniau a chreiriau hanesyddol mae'r Castell berchen arnynt ac yn eu dal. Mae proses digido'r deunydd yma eisioes ar waith dan arweinyddiaeth hanesydd y Castell – Glen Johnson, â'i dîm o wirfoddolwyr parod. Bydd y gwaith yma yn crynhoi hanes y Castell a'u gynnig mewn ffordd hygyrch i bobl ac yn cynnig profiad arbennig cyn ac ar ôl i unigolyn ymweld â'r safle.

Mae mewnlf ymwelwyr i'r ardal yn parhau, ac mae darpariaeth lletya'r Castell gyda'r 'Gwely a Brecwast' treftadol yn perfformio yn dda gyda chanran uchel o arhosiadau. Mae aden ddwyreiniol y Tŷ yn ystod y cyfnod dan sylw wedi bod yn aml-ddefnydd – weithiau fel stafelloedd gwely a brecwast ac ar adegau fel gofod hunan ddarparieth. Mae'n cynnig pedair llofft wely foethus ar gyfer arhosiad un noson yn unig. Mae hyn yn ogystal â argaeledd i grwpiau a theluoedd sy'n llogi'r adeilad cyfan fel un uned.

Mae ymwneud y gymuned leol â'r Castell yn parhau, ac fe drefnywd nifer o ddigwyddiadau ar gyfer ystod eang o ddi-ddordebau ac i bob oedran. Gwelwyd cynnydd yn narpariaeth sioeau Cwmni Theatr Mewn Cymeriad, a gwelwyd twf yn niferoedd y gynulleidfa yn ystod y cyfnod. Mae'r niferoedd wedi codi yn raddol o'r cynhyrchiadau gwreiddiol i'r perfformiadau dweddaraf am fywyd David Lloyd George. Bu i 'Kate' sioe un person am y nofelwraig enwog werthu allan. Mae'r sioeau un perfformiwr hyn yn addas iawn i'r Castell a'r gofod perfformio, sy'n cynnig chwistrelliad pwysig i ddod â hanes yn fyw. Yn ystod y cyfnod llwyfannwyd sioe ddwyieithog i blant am Llewelyn Fawr, gafodd dderbyniad arbennig gan ddwy gynulleidfa frwd o blant.

Bu i grwp Gorllewin Cymru Creadigol a Chymdeithas Twristiaeth Canolbarth Cymru gynnal digwyddiadau yn y Castell lle croesawyd darpar rhanddeiliaid newydd i'r safle. Mae nifer o grwpiau lleol yn parhau i gyfarfod yn y Castell, gan ddefnyddio'r stafelloedd cynhadledda fel eu cartref. Cynhelir dosbarthiadau Dysgu Cymraeg yma ar gyfer bob lefel o ruglder gan gychwyn gyda dechreuwyr. Mae'r grwp archifo, Cymdeithas olrhain hanes

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan Building Preservation Trust

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Teuluoedd Dyfed, a Chriw Barddoni dan arweiniad Ceri Wyn Jones hefyd yn cyfarfod yma.

Mae'r Castell yn parhau i feithrin cysylltiad gyda chyrff a sefydliadau treftadaeth a diwylliannol drwy Gymru. Mae'r Ystafell ymchwil â'r tîm o wirfoddolwyr pybyr yn parhau i fynd o nerth i nerth. Yn ddiweddar wnaeth Glen Johnson gyflwyno pedair darlith wnaeth gofnodi a chrisialu datblygiad parhaol y safle, a'r sefyllfa wrth i'r Castell wynebu'r dyfodol.

Mae teithiau o gwmpas y Castell yn dal i fod yn boblogaidd gyda lefel uchel o werthfawrogiad. Yn ystod y cyfnod croesawyd grwpiau o'r Unol Daleithiau i'r Castell, oedd wedi glanio yn Abergwaun ar y llongau mawrion. Mae tyfu'r gynulleidfa hon o ymwelwyr yn darged dros y ddwy flynedd nesa' lle gobeithir bydd gwefan newydd y Castell yn chwarae rôl bwysig wrth eu denu i ymweld.

Iaith a Diwylliant

Mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth yn dal i roi safle blaengar i Gastell Aberteifi ymysg y sector Dysgu Cymraeg i Oedolion. Yn ystod y flwyddyn bu cyd-weithio rhwng y Castell ac asantiaeth Ceredigion i hyrwyddo'r Gymraeg – CERED. Gweithiwyd ar y cyd â nifer o ysgolion lleol i hyrwyddo'r iaith drwy atgyfodi Gorymdaith boblogaidd Dydd Gŵyl Dewi. Gwelwyd cannoedd o ddisgyblion yn gorymdeithio i lawr y brif stryd yn y Dre gan orffen yn y Castell, lle perfformiwyd a chyd-ganwyd nifer o ganeuon o flaen tyrfa o rieni'r plant. Yn sgîl llwyddiant y digwyddiad mae cynlluniau i barhau â'r parêd a'i osod fel digwyddiad blynyddol yn y calendr.

Gwelwyd y wasgfa gyllidol ar y sector gelfyddydau yn cael effaith ar ddarpariaeth digwyddiadau'r Haf yn y Castell. Bu'n rhaid i'r Castell eu llwyfannau ar liwt ei hun. Canlyniad hyn oedd pwysau gwaith trwm ar staff y Castell ond gyda chymorth di-flino y gwirfoddolwyr llwyddwyd i gynnig amserlen o ddigwyddiadau. Darparodd Theatr Felinfach gwasanaeth tocynnau llwyddianus a fe grewyd holl ddeunydd marchnata a hyrwyddo'r cyngherddau a'r sioeau yn fewnol gan dîm y Castell.

Crewyd partneriaeth hynod o lwyddianus gyda Gwasanaeth Cerdd Ceredigion er mwyn llwyfannu "Proms y Castell", lle gwelwyd nifer o artistiaid proffesiynol yn croesawu aelodau o gôr ieuencid a Cherddorfa ieuencid y Sir i rannu llwyfan â nhw.

Denwyd nawdd sylweddol wrth gwmnïau Coco & Cwtsh a Cware ac Olew Trefigin, i ychwanegu at incwm y Castell i helpu llwyfannu'r perfformiadau yma. Mae'n braf medru adrodd fod digwyddiadau'r Haf wedi adlonni a diddanu sawl mil o bobl yn ogystal â bod yn llwyddiant masnachol.

Gweithiodd y Castell a Theatr Mwldan gyda'i gilydd yn llwyddiannus wrth groesawu cwmni theatr Illyria a chwmmi No Fit State Circus i ddarparu sioeau poblogaidd ar y lawnt.

Fel un o lwyfannau Gŵyl Lleisiau Eraill, gynhaliwyd ym mis Hydref defnyddiwyd pafiliwn y Castell i groesawu Prif Wenidog newydd y senedd Eluned Morgan ar gyfer derbyniad swyddogol gyda llysgennad Iwerddon.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o lawnsiadau Llyfr llwyddiannus ar gyfer cyhoeddwr annibynol yn y Castell.

Ym mis Rhagfyr gweithiodd y Castell mewn partneriaeth â chwmmi Theatr Byd Bach a Wired Wood i fod yn gyrchfan ar gyfer gorymdaith fawr llusernau a gynhelir yn flynyddol yn Aberteifi. Gwelwyd nifer o ganoedd o'r gymuned leol o bob oed yn cyrraedd safle a gerddi'r Castell yng ngolau eu llusernau, a wnaed yn y gweithdai oedd yn arwain at y digwyddiad. Arweiniwyd yr orymdaith gan nifer o bypedau mawr crewyd gan y Cwmni.

Mae hwn yn ddigwyddiad hudolus sy'n mynd ar bromenâd drwy'r strydoedd gyda'r Castell yn cynnig cefnlen perffaith ar gyfer uchafbwynt y noson.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

Y Gymuned Leol

Mae rôl y Castell yn y gymuned leol wedi gweld nifer o engreifftiau o gyd-weithio a rhannu adnoddau yn ystod y flwyddyn. Croesawyd Gŵyl Fawr Aberteifi ar gyfer y Cyhoeddi i'r Castell i lawnsio wythnos o ddigwyddiadau, a chafwyd darlith flynyddol gofiadwy draddodwyd gan Ceri Wyn Jones oedd yn cyflwyno 'Aberteifi'. Cynhaliwyd dau dalwrn – un i bobl ifanc a'r llall i oedolion yn y Pafiliwn.

Cofnododd y gangen leol o'r Royal British Legion glaniadau D-Day mewn seremoni Coffa a gynhaliwyd yng ngerddi Brioude. Codwyd baneri pwrpasol i chwifio wrth fynedfa'r Castell i gofnodi'r achlysur arbennig yma.

Yn ystod y cyfnod dan sylw mae'r Castell wedi cyd-weithio gyda Chyngor y Dref yn effeithiol i hyrwyddo digwyddiadau a chyfnodau neu ddiwrnodau arbennig yn y calendr. Tafluniwyd logos a delweddau addas yn erbyn muriau'r Castell o ochr yr afon Teifi ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio ystafelloedd cyfarfod a darpariaeth fidio gynhadledda'r Castell ar gyfer eu cyfarfodydd.

Cleient arall ar gyfer yr ystafelloedd hyn yw Plaid Cymru, ac fe gynhelir clinigau cyson gan AC, Elin Jones, a AS, Ben Lake i gyfarfod â phobl eu hetholaeth.

Mae'r Ystafell Ymchwil yn parhau i gynnig gwasanaeth amhrisiadwy – i bobl o bell ac agos sy'n frwd i olrhain hanes eu teuluoedd oedd yn byw yn yr ardal, gyda llif cyson o geisiadau am gymorth. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn wybodus iawn yn eu hymdrechion i rannu ac ymhelaethu ar yr hanes manwl a phenodol mae'r cyhoedd yn chwilio amdano. Rydym yn ddyledus iawn hefyd i'r gwirfoddolwyr hyn sy'n dal i gefnogi mor gyson a gydag arddeliad. Rydym yn ddiolchgar iawn i rheiny sy'n gwirfoddoli yn ein digwyddiadau mawr a bach, a sydd drwy wneud hynny'n cyfoethogi profiad yr ymwelwyr a'u gwerthfawrogiad, a'u dealltwriaeth o'r safle.

Mae'r 'Gwirfoddolwyr Garddio' dan arweiniad aelodau staff yn parhau i ddatblygu'r gerddi, y borderi blodau, yr ardd lysiau, y coed ffrwythau a'r tŷ gwydr, gan sicrhau drwy hynny gwledd bythol newidiol ar draws y tymhorau yn weledol, ac wrth dyfu'r cynnyrch sy'n cyrraedd byrddau 1176, bwyty'r Castell.

Yn sgîl penderfyniad diweddar nifer o'r sefydliadau bancio i ail-ystyried eu darpariaeth o wasanaethau yn y dref, rydym wedi croesawu Banciau Barclays a Lloyds i'r Castell. Mae'r ddau wedi cau eu drysau fel manau bancio traddodiadol ar y brif stryd a sefydlu hwb i'w gwasanaeth yn Nhŷ Cadwgan. Cynigir y gwasanaeth hyn o ystafelloedd cyfarfod y Castell.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn parhau i fwynhau defnyddio'r stafelloedd cynhadledda arbennig er mwyn cynnig amrywiaeth o gyrsiau penodol i bobl yr ardal. Dyma dri o ffyrdd mae'r Castell yn chwarae rhan creiddiol wrth hwyluso parhad gwasanaethau pwysig yn Aberteifi.

Fel gofod anhygoel i gynnal priodasau mae'r Castell heb ei ail fel lleoliad i bobl leol a'r gymuned ehangach. Eleni dathlodd wyth o gyplau eu priodasau yma'n y Castell. Cynhaliwyd Ffair Briodas ym mis Mai yn y pafiliwn ar y cyd â arlwywyr swyddogol y Castell – Holden's Catering, ynghyd â nifer o gwmnïau eraill sy'n cynnig amryw o wasanaethau unigryw ar gyfer diwrnod priodas. Mae Holden's Catering yn elfen hollbwysig wrth i'r Castell gynnig i gleientiaid allanol gynnal digwyddiadau a chynhadleddau ar y safle. Mae safon uchel yr arlwy a'r gwasanaeth a gynigir yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan drefnwyr y digwyddiad a'r mynychwyr.

Un o uchafbwyntiau'r calendr yw'r Ffair Nadolig flynyddol. Estynodd digwyddiad 2023 allan i 46 o grefftwyr, gwneuthurwyr a busnesau bychain, gan ddenu mwy na 1200 o bobl i ymweld â'r Ffair yn ystod y dydd. Dyma'r Ffair fwya hyd yn hyn. Roedd mwyafrif y bobl o'r gymuned leol.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

Ym Medi 2024 roedd yn bleser cael gweithio gyda 'merch o'r dre' Sarah James MBE, wrth iddi ddod â fformat Gŵyl Grefft Cymru i'r Castell. Roedd tridiau'r digwyddiad gydag arddangosfeydd, gweithdai a dros naw-deg o stondinau gan grefftwyr unigol yn gwerthu eu gwaith yn lwyddiant mawr. Denodd y digwyddiad dros 3,500 o bobl drwy gatiâu'r Castell ac mi wnaeth y niferoedd yma fod o fudd i weddill y dref yn ogystal. Mae'n argoeli'n dda bydd modd sefydlu'r Wyl yn flynyddol fel y mwyaf o'i bath yng Nghymru.

Mae'r flwyddyn yma o newid hefyd wedi arwain at adolygu rhai o strwythurau'r Ymddiriedolaeth. Fel nodwyd ym mhapurau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol bydd dychweliad i'r arfer o godi tâl aelodaeth ar gyfer bod yn aelod o Ymddiriedolaeth Cadwgan.

Er osgoi camddealltwriaeth y bwriad yw ail-enwi 'Aelodau'r Castell' fel 'Cyfeillion y Castell', er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt ag aelodau Ymddiriedolaeth Cadwgan. Mae gwahoddiad i bob aelod o Cadwgan i fod yn 'Gyfaill i'r Castell' ac i'r 'Cyfeillion' i fod hefyd yn aelod o'r Ymddiriedolaeth.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Sefyllfa ariannol

£494,844 oedd y refeniw yn 2023/24 o'i gymharu â £504,223 yn y flwyddyn flaenorol. Lleihaodd y refeniw o £9,379 (1.9%).

Dangosir gwariant o £541,126 yn y cyfrifon, i lawr £3,303 neu 0.61% yn erbyn ffigwr llynedd sef £544,429 gan adlewyrchu gwaith dyfal Cyfarwyddwr y Castell wrth reoli costau.

Mae'r gwariant yn cynnwys £59,888 o dâl cadw cyfrifon nad yw'n arian parod i ostwng gwerth yr Asedau Treftadaeth i ddim ar ddiwedd y brydles 125 mlynedd gan Gyngor Sir Ceredigion (gweler nodyn 15 i'r cyfrifon). Ac eithrio'r tâl tybiannol hwn, y treuliau oedd £481,238 a'r incwm net oedd £13,606.

Mae'r ffigurau cyfunol hyn yn cynnwys is-gwmni masnachu'r ymddiriedolaeth, Cardigan Castle Enterprises Limited, a gafodd flwyddyn gref ac a fydd mewn sefyllfa i roi £150,034 i'r Ymddiriedolaeth cyn diwedd Rhagfyr 2024.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Polisi Cronfeydd

Mae gan yr Ymddiriedolaeth £8,276,143 wrth gefn o gronfeydd cyfyngedig, sy'n adlewyrchiad o'r buddsoddiad sylweddol yn yr asedau treftadaeth. Fel y disgrifir yn yr Adolygiad Ariannol, bydd gwerth £7,395,363 o asedau treftadaeth yn cael ei ostwng i ddim erbyn diwedd y brydles. Cynyddodd cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig i £1,078,565 ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ar lefel foddhaol mewn perthynas â chostau blynnyddol.

CYNLLUNIO AT Y DYFODOL

Gan edrych i'r dyfodol mae trafodaeth gychwynnol gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn edrych ar ffyrdd posib o gyd-weithio er budd y ddau sefydliad.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu atyniadau cyffrous newydd yn y Castell gyda datblygu pellach yng ngwaelod y safle.

Ar drothwy dengmlwyddiant ers agor y Castell a chroesawu'r cyhoedd, yma, a'r gymuned, mae amserlen o ail beintio ac addurno, ar waith i roi gwedd a theimlad ffres i'r cynnwys ac i ail-fywiogi'r safle. .

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

Mae'r Castell yn cyd-weithio gydag Antur Cymru i osod cyfarpar digidol i gasglu data i gofnodi niferoedd a llif ymwelwyr drwy'r safle. Dros amser bydd hyn yn ein helpu i ddadansoddi ac i ddeall yn well effeithiolrwydd ag apêl atyniadau unigol rydym yn darparu ar gyfer ymwelwyr.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Dogfen lywodraethu

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n gyfystyr â chwmmi cyfyngedig trwy warant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a gorfforwyd ar 21 Mawrth 2000 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 11 Mai 2000. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a sefydlodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac sy'n cael ei lywodraethu o dan ei Erthyglau Cymdeithasu. Pe byddai'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, byddai'n ofynnol i'r aelodau gyfrannu swm nad yw'n fwy na £1.

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusen at ddibenion cyfraith elusennol. O dan ofynion y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, rhaid ailethol y nifer agosaf at draean o'r ymddiriedolwyr etholedig ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Yn gyffredin â llawer iawn o elusennau eraill mae gan yr Ymddiriedolaeth is-gwmni masnachu, Cardigan Castle Enterprises Limited, sy'n cynnal y gweithgareddau anelusennol ar y safle. Mae'r cyfrifon ariannol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cydgrynhai gweithgareddau'r is-gwmni hwn, ond mae Nodyn 13 i'r cyfrifon yn crynhoi ei berfformiad. Yn ystod 2023/24, gwnaeth Cardigan Castle Enterprises Limited elw o £150,034 a bydd y swm hwn yn cael ei roi i'r Ymddiriedolaeth cyn gdiwedd y flwyddyn galendr er mwyn cefnogi ei gweithgareddau elusennol.

Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Caiff ymddiriedolwyr newydd wybod am eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith elusennau a chwmmiau, Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, cynnwys y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, y broses pyllgorau a gwneud penderfyniadau a pherfformiad ariannol diweddar yr elusen..

Rheoli risg

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadw cofrestr risg sy'n cael ei diweddar'u rheolaidd. Mae dyletswydd arnynt hefyd i nodi ac adolygu'r risgiau y mae'r elusen yn agored iddynt a sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith i roi sicrwydd rhesymol yn erbyn twyll a gwall.

Rheoli

Mae aelodaeth o'r ymddiriedolaeth yn agored i unrhyw un sy'n cefnogi amcanion a nodau'r ymddiriedolaeth. Croesewir ceisiadau am aelodaeth ar unrhyw adeg ac fe'u hystyrir ym mhob cyfarfod ymddiriedolwyr misol. Daw aelodaeth i rym o'r dyddiad cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr.

Mae'r holl ymddiriedolwyr yn rhoi eu hamser o'u gwirfodd, heb gael unrhyw fuddion ariannol na buddion eraill gan yr elusen.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDU

Rhif Cwmni Cofrestredig
03955918 (Cymru a Lloegr)

Rhif Elusen Gofrestredig
1080667

Swyddfa gofrestrdig
Castell Aberteifi
Green Street
ABERTEIFI
Ceredigion
SA43 1JA

Ymddiriedolwyr
EN Davies
JC Davies
AM Reed
CS Hewitt
K Taylor
JS Jenkins

Archwilwyr
Ashmole & Co
Manchester House
Rhiw Grosvenor
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HY

Cyfreithwyr
Agri Advisor Legal LLP,
Cartrefle, Bridge Street,
Newcastle Emlyn
SA38 9DX

Manylion Cydeirio a Gweinyddu
Bancwyr
Barclays Bank plc
32 Stryd Fawr
Aberteifi
Ceredigion
SA43 1HH

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan Building Preservation Trust at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa'r cwmni elusennol a'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwysiad adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusen;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol o gywir ar unrhyw adeg ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

ARCHWILWYR

Bydd yr archwilwyr, Ashmole & Co., yn cael eu cynnig i'w hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol sydd ar ddod.

Cymeradwywyd drwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar a llofnodwyd ar ei ran gan:

.....
EN Davies - Ymddiriedolwr

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan Building Preservation Trust

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan Building Preservation Trust (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2024 ac ar ei adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwysiad yr adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail i'r farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) (sef ISA (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilwyr dros archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, a'r darpariaethau sydd ar gael ar gyfer endidau bach, o dan yr amgylchiadau a nodir yn nodyn 21 i'r datganiadau ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn..

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethom, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blyneddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n Hadroddiad o'r Archwilwyr Annibynnol ar hynny.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, ar sail y gwaith a wnaethom, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni roi gwybod am y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol
i Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan**

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod os yw'r canlynol yn wir, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r cwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein hymchwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmniâu) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi barn wir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol yr ystyria'r ymddiriedolwyr ei bod yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamdatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt ddewis realistig ond gwneud hynny.

Ein cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n effeithiol o dan hynny.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamdatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai perthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu, yn unigol neu gyda'i gilydd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae'r graddau y mae ein gweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael eu nodi isod:

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gwnaethom ystyried y canlynol:

- natur yr elusen a'r sector y mae'n gweithredu ynddo.
 - y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo, ac yn benodol y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu'n cael effaith sylfaenol ar weithrediadau, e.e. Deddf Elusennau 2011, deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
 - canlyniadau ymholiadau rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
 - unrhyw faterion a nodwyd yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r elusen ar gyfer nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, ac a oedd unrhyw enghreifftiau hysbys o ddiffyg cydymffurfio.
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, dan amheuaeth neu honedig.
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau twyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- O ganlyniad i gyflawni'r uchod, ni wnaethom nodi unrhyw faterion archwilio allweddol sy'n ymwneud â risg bosibl twyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol
i Ymddiriedolwyr Ymddiredolaeth Cadwraeth Adeiladau Cadwgan**

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol
- holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl
- cyflawni gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthynas anarferol neu annisgwyl a allai fod yn arwydd o risgiau camdatganiad perthnasol oherwydd twyll
- adolygu cofnodion cyfarfodydd pwyllgor
- sylwadau ysgrifenedig

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilwyr Annibynnol.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Gwnaethpwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Ashmole & Co.

Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Statudol

Yn gymwys i weithredu fel archwilydd o ran Adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Williamston House

7 Goat Street

Hwlfordd

Sir Benfro

SA61 1PX

Dyddiad:

Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiad cyllidol

**Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau
Cadwgan Building Preservation Trust**

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

| | | Cronfa angyfyngedig | Cronfa cyfyngedig | 31.3.24 Cyfanswm cronfeydd | 31.3.23 Cyfanswm cronfeydd |
|---|-------|-------------------------|-------------------------|----------------------------------|----------------------------------|
| | NODYN | £ | £ | £ | £ |
